Manyleb ar gyfer y 1af o Fedi 2021

Manyleb

Cymhwyster Lefel 3 mewn Arwain Chwaraeon (SL3)

SLO Sports Leaders

Arweinydd Chwaraeon SL3

Cyflwyniad i'r fanyleb

Ar ôl blwyddyn o addasiadau dros dro i'r manylebau yn 2020/21, mae'r fanyleb wedi cael ei hadolygu er mwyn bod yn fwy perthnasol i'r heriau y mae Arweinwyr Chwaraeon Lefel 3 yn debygol o'u hwynebu. Mae'r cymhwyster hefyd yn cyd-fynd â'r safonau proffesiynol ar gyfer arwain chwaraeon a gweithgarwch corfforol, yn enwedig drwy'r ffocws ar arwain sesiynau cynhwysol i gyfranogwyr.

Diffinio cymuned	Mae'r diffiniad o gymuned wedi esblygu dros y flwyddyn ddiwethaf, a bydd hyn yn wir ar gyfer y dyfodol. Yng nghyd-destun arwain chwaraeon, diffinnir cymuned fel: • Darparwr addysg • Swigen gymdeithasol • Amgylchedd y cartref • Amgylchedd digidol/cyfryngau cymdeithasol • Cymuned leol y dysgwr (e.e. mewn clybiau chwaraeon, clybiau ieuenctid ac ati) Pan ofynnir i ddysgwr wneud gweithgaredd yn ei gymuned, gellir gwneud hynny ar gyfer unrhyw un o'r uchod.
Dangos arweiniad	Cyfanswm o 14 awr: • 2 awr yn arwain digwyddiad • 12 awr o arwain sesiwn chwaraeon / gweithgarwch corfforol i amrywiaeth o grwpiau o gyfranogwyr
Y cyfrifoldeb o arwain sesiynau diogel fel Arweinydd Chwaraeon	Yn ystod yr hyfforddiant, mae'n rhaid i Arweinydd Chwaraeon Lefel 3 gael ei gefnogi a'i arwain bob amser gan ei Diwtor / Asesydd neu gan y person sy'n gyfrifol am y sefydliad y mae'n arwain ynddo. Bydd angen i'r person cyfrifol gynghori'r Arweinydd Chwaraeon ar asesu risg ac ar yr ymyriadau y mae angen eu rhoi ar waith yn unol â chanllawiau'r sefydliad ar ddiogelwch a diogelu. Ar ôl cymhwyso, bydd yr Arweinydd Chwaraeon yn gallu arwain yn annibynnol (unwaith y bydd yn 18 oed) a bydd yn gyfrifol am bob agwedd ar ddiogelu a diogelwch yn y dyfodol fel Arweinydd Chwaraeon Lefel 3 wedi'i ardystio.
Mwy o ffocws ar gynhwysiant	Rhowch hyblygrwydd i'ch Canolfan a'ch dysgwyr deilwra eich darpariaeth er mwyn: • Cyd-fynd ag anghenion eich grwpiau o gyfranogwyr yn eich Canolfan a/neu eich cymuned • Sicrhau ffocws ar rannau o'r gymdeithas sydd bwysicaf i chi a'ch dysgwyr (e.e. gallai hyn fod yn creu gweithgareddau ar gyfer merched a genethod, gwella amrywiaeth y ddarpariaeth yn eich cymuned, arwain gweithgareddau ar gyfer pobl hŷn ac ati)
Grwpiau cyfranogi posib ar gyfer y cymhwyster hwn	• Plant • Pobl hŷn • Pobl anabl • Merched a genethod • Grwpiau lleiafrif ethnig • Pobl fyddar • Unrhyw grŵp arall yn eich cymuned

© SLQ 2021

Heriau Cefnogi'r Dysgwr	Nod yr heriau hyn yw cefnogi'r Arweinydd Chwaraeon i gyflwyno sesiynau gweithgarwch corfforol / chwaraeon diogel a chynhwysol. Byddant yn helpu'r dysgwr i adnabod y sgiliau sy'n cael eu datblygu ac yn ei arwain i'w rhoi ar waith yn effeithiol mewn amgylchedd sy'n newid o hyd. Mae'r rhain yn adnoddau sy'n wynebu'r dysgwr ac mae modd cael mynediad atynt fel rhan o'ch ffioedd cofrestru, fel rhan o'r gwaith dysgu o gartref neu mewn sesiynau wyneb yn wyneb. Dyma'r saith her i'ch cefnogi gyda chyflwyno'r cymhwyster hwn: 1) Her Gwerthfawrogi Dysgu – Ymgysylltu â dysgu a'ch cymuned 2) Her Sgiliau ar gyfer Cynnydd – Y sgiliau personol y mae angen i chi eu datblygu 3) Her Credu Ynoch Chi eich Hun – Meithrin hyder i lwyddo 4) Her Diogelwch yn Gyntaf – Arwain gweithgareddau'n ddiogel 5) Her Addasu Gweithgareddau – Datblygu gweithgareddau ar gyfer amgylchedd sy'n newid 6) Her Arwain Rhithiol – Defnyddio technoleg i arwain gweithgareddau 7) Yr Her Adlewyrchu – Hunanwerthuso sgiliau yn effeithiol Yn adnoddau'r tiwtor ac yng Nghofnodion Tystiolaeth y Dysgwr, cyfeirir at yr heriau hyn fel 'Cyfleoedd Pweru'

© SLQ 2021

Gwybodaeth am y cymhwyster

Amcan:
Mae SL3 yn gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae'n galluogi dysgwyr llwyddiannus i arwain gweithgarwch corfforol / chwaraeon difyr a phwrpasol yn annibynnol.

Isafswm oedran ar ddyddiad dechrau'r cwrs	15 oed
Isafswm oedran wrth gwblhau'r cwrs	17 oed
Rhagofynion	Dim
Lefel goruchwyliaeth yn ystod y cwrs	Goruchwyliaeth uniongyrchol
Lefel goruchwyliaeth ar ôl cymhwyso	Goruchwyliaeth anuniongyrchol yn 17 oed Annibynnol ar oruchwyliaeth yn 18 oed
Cyfanswm Oriau Cymhwyso (TQT)	122 awr
Oriau gyda thiwtor (GL)	60 awr
Dangos arweiniad	14 awr (edrychwch ar yr adran dangos arweiniad isod am fwy o wybodeth am hyn)
Credydau	12 credyd
Pwyntiau tariff UCAS	16
Rhif y cymhwyster (cod Quan)	603/7400/7

Oriau Dangos Arweiniad – Adolygwyd ar gyfer 2021/22

Uned	Oriau arwain gofynnol ar gyfer cyrsiau sy'n cychwyn o 1 Medi 2021 ymlaen
Uned 5 – Cynllunio, arwain a gwerthuso digwyddiad chwaraeon / gweithgarwch corfforol	2 awr o arwain digwyddiad
Uned 6 – Dangos arwain sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol i amrywiaeth o grwpiau o gyfranogwyr	12 awr o arwain gydag amrywiaeth o grwpiau o gyfranogwyr

Asesu
Ar gyfer y cymhwyster hwn, mae Arweinwyr Chwaraeon SLQ wedi darparu Cofnod Tystiolaeth y Dysgwr, sy'n hawdd iawn ei ddefnyddio. Mae'r Cofnod yn orfodol ac yn defnyddio'r asesiadau hyn:

- Arsylwi ymarferol – gyda chanllawiau ychwanegol ar sut i ddefnyddio fideos ac apiau cynadledda i gefnogi penderfyniadau asesu
- Asesu tasgau ysgrifenedig (darperir taflenni gwaith ar gyfer y dasg yng Nghofnod Tystiolaeth y Dysgwr)
- Cynlluniau a gwerthusiadau i'w cwblhau yn ystod y cwrs

* Mae modd gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gallu cwblhau'r Cofnod

Adnoddau – Adolygwyd ar gyfer 2021/22
I'ch helpu i gyflwyno ac asesu'r cymhwyster hwn, bydd Arweinwyr Chwaraeon SLQ yn rhoi mynediad i chi at y dogfennau canlynol yn electronig:

- Manyleb y cymhwyster hwn – wedi'i hadolygu ar gyfer 2021/22
- Cofnod Tystiolaeth y Dysgwr – wedi'i adolygu ar gyfer 2021/22
- Cyfres o Heriau Cefnogi'r Dysgwr – er mwyn helpu dysgwyr i addasu i anghenion diogelwch eu cymuned, sy'n newid yn gyson
- Sleidiau cyflwyniad Adnoddau'r Tiwtor ar gyfer pob uned – wedi'u hadolygu ar gyfer 2021/22
- Rhestr Wirio Adolygu Sicrwydd Ansawdd
- Ffurflenni Dilysu Mewnol – wedi'u hadolygu ar gyfer 2021/22
- Cofnod Asesu Mewnol – wedi'i adolygu ar gyfer 2021/22

Training requirements for your Centre
Ar gyfer Canolfannau sy'n bwriadu cynnig cymwysterau Arweinwyr Chwaraeon SLQ, mae'n ofynnol bod tiwtoriaid yn derbyn hyfforddiant. Mae'n rhaid i o leiaf un person o bob Canolfan ddilyn yr Hyfforddiant Tiwtoriaid. Bydd hwn yn rhoi statws 'Asesydd/Tiwtor Hyfforddedig', sy'n para dwy flynedd.

Mae'r e-hyfforddiant ar gyfer Rheolwyr Cyrsiau Canolfannau a'r e-hyfforddiant Dilysu Mewnol hefyd yn orfodol i'r rheini sy'n cyflawni'r swyddogaethau mewn Canolfan. Ewch i LEAP i gwblhau'r hyfforddiant.

Ar gyfer 2021/22 - rhaid i'r Tiwtor / Asesydd Hyfforddedig yn eich Canolfan fynychu gweminar DPP Hyfforddiant Tiwtoriaid Lefel 3. Dylid gwneud hyn cyn dyddiad cychwyn y cwrs lle bo hynny'n bosib ond heb fod yn hwyrach na 4 wythnos ar ôl dyddiad dechrau'r cwrs.

Polisïau
Wrth gytuno i'r Telerau ac Amodau, mae'r holl Ganolfannau sy'n cynnig y Cymwysterau yn cydnabod bod y polisïau canlynol yn eu lle a'u bod ar gael i'r dysgwyr ac i'r tiwtoriaid yn ôl yr angen:

- Polisi camymddwyn a chamweinyddu
- Polisi apeliadau a chwynion
- Polisi cyfle cyfartal

Drwy ein hadolygiadau Sicrhau Ansawdd, bydd modd gweld ydy'r rhain ar gael ac a oes rhywun wedi cael mynediad atynt yn y 12 mis diwethaf. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am hyn, cysylltwch â'ch Uwch Swyddog Sicrhau Ansawdd neu anfonwch e-bost at qa@sportsleaders.org.

Cynnydd
Mae gan y cymhwyster hwn lwybr cynnydd at gymwysterau cysylltiedig â chwaraeon pellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Pris
Yma gallwch weld prisiau holl gymwysterau a dyfarniadau Arweinwyr Chwaraeon SLQ , yn ogystal ag adnoddau ychwanegol.

Manyleb
Cymhwyster Lefel 3 mewn Arwain Chwaraeon (SL3)

Beth sydd wedi newid ar gyfer 2021-22?

Trosolwg o'r Uned

- Nawr 6 uned yn hytrach na 7 - mae angen i'r dysgwyr gwblhau pob un o'r 6
- Mae Uned 3 yn disodli'r wybodaeth o Unedau 4, 5, 6 a 7 o fanylebau blaenorol
- Gostwng nifer yr oriau o ddangos arweiniad o 30 i 14
- Hyblygrwydd i ganiatáu i'ch dysgwyr arwain sesiynau cynhwysol i'r grwpiau cyfranogwyr sydd bwysicaf iddynt hwy (e.e. plant, merched a genethod, pobl hŷn, pobl anabl, ac ati)

Uned 1

Yn Uned 1, nid oes unrhyw newidiadau i'r Meini Prawf Asesu nac i'r Tasgau sydd angen eu cwblhau.

Uned 2

Uned 2 oedd Uned 3 yn y fanyleb flaenorol. Mae wedi symud i Uned 2 oherwydd ei fod yn caniatáu i'r dysgwr ddilyn datblygiad mwy naturiol o ran yr wybodaeth a'r sgiliau gofynnol ar gyfer arwain digwyddiadau a sesiynau yn nes ymlaen

Uned 3

- Uned newydd yw hon sy'n archwilio nodweddion sesiynau cynhwysol
- Mae'r uned hon yn disodli'r rhannau gwybodaeth a oedd yn Unedau 4, 5, 6 a 7 yn flaenorol - mae dwy dasg yn disodli pedair
- Mae'r uned yn caniatáu i chi a'ch dysgwyr archwilio anghenion grwpiau cyfranogwyr posib eraill er enghraifft

Uned 4

- Bellach Uned 4 yw'r canolbwynt i'r Tiwtor / Asesydd arsylwi ac asesu'r dysgwr yn arwain 2 sesiwn 30 munud (3 sesiwn 20 munud yn flaenorol)
- Bydd y dysgwr yn cynllunio tri sesiwn cysylltiedig ac yn arwain dau o'r rhain gyda'r Tiwtor / Asesydd yn arsylwi

Uned 5

- Mae mwy o ffocws ar sut gellir gwneud digwyddiadau'n gynhwysol ar gyfer y cyfranogwyr
- Hefyd mae gofyn i'r dysgwyr gwblhau o leiaf 2 awr o arddangosfa yn arwain digwyddiad

Uned 6

- Mae hon yn uned newydd - mae'n canolbwyntio ar y dysgwr yn cynllunio, yn arwain ac yn gwerthuso sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol i amrywiaeth o grwpiau o gyfranogwyr yn eu cymuned (yr amrywiaeth yw o leiaf dri grŵp gwahanol o gyfranogwyr)
- Mae'n disodli rhannau o Unedau 4-7 ym manyleb 2019/20
- Mae angen chwe chynllun sesiwn (fel arfer cynllun ar gyfer 1 awr o chwaraeon / gweithgarwch corfforol)

© SLQ 2021

Cymhwyster Lefel 3 SLQ mewn Arwain Chwaraeon (SL3)
Manyleb ar gyfer y 1af o Fedi 2021
Trosolwg o'r Uned

Beth sydd wedi newid?

- Nawr 6 uned yn hytrach na 7 - mae angen i'r dysgwyr gwblhau pob un o'r 6
- Mae Uned 3 yn disodli'r wybodaeth o Unedau 4, 5, 6 a 7 o fanylebau blaenorol
- Gostwng nifer yr oriau o ddangos arweiniad o 30 i 14
- Hyblygrwydd i ganiatáu i'ch dysgwyr arwain sesiynau cynhwysol i'r grwpiau cyfranogwyr sydd bwysicaf iddynt hwy (e.e. plant, merched a genethod, pobl hŷn, pobl anabl, ac ati)

Unedau **Mae pob uned yn orfodol**	**Oriau Dysgu dan Arweiniad (Amser gyda thiwtor)**	**Astudio dan Gyfarwyddyd**		**Cyfanswm Oriau Cymhwyso (TQT)**
Uned 1 – Datblygu sgiliau arwain	4	4		8
Uned 2 – Arwain sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol diogel	5	4		9
Uned 3 – Gwybod sut i gynllunio sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol	18	10		28
Uned 4 – Cynllunio, arwain a gwerthuso cyfres gynyddol o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol	15	10		25
Uned 5 - Cynllunio, arwain a gwerthuso digwyddiad chwaraeon / gweithgarwch corfforol	15	10	2*	27
Uned 6 – Dangos arwain sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol i amrywiaeth o grwpiau o gyfranogwyr	3	10	12*	28
	60	**62**		**122** **12 credyd**

* Yn cynnwys 14 awr o ddangos arweiniad:
  -Uned 5 – arddangosfa2awr yn arwaindigwyddiad
  -Uned 6 – arddangosfa12 awr o arwain sesiwn chwaraeon / gweithgarwchcorfforol (edrychwch ar Uned 6 am gyfarwyddyd)

Nodyn: Mae angen i'r dysgwr gael ei asesu ar gyfer pob un o'r meini prawf asesu yn Unedau 1, 2, 3 a 4 a phasio pob un ohonynt hefyd, cyn arwain unrhyw un o'r sesiynau arwain 12 awr sy'n angenrheidiol ar gyfer Uned 6

© SLQ 2021

Cymhwyster Lefel 3 SLQ mewn Arwain Chwaraeon (SL3)
Manyleb ar gyfer y 1af o Fedi 2021
Canllawiau ar Unedau a'r Meini Prawf Asesu

Beth sydd wedi newid?
Yn Uned 1, nid oes unrhyw newidiadau i'r Meini Prawf Asesu nac i'r Tasgau sydd angen eu cwblhau.

Uned 1 – Datblygu sgiliau arwain		
Meini Prawf Asesu	Camau gweithredu gofynnol	Beth sydd angen ei gwblhau
Learning Outcome 1 – Understand the skills and behaviours needed for effective, inclusive leadership		
1.1 Cymharu a gwrthgyferbynnu swyddogaethau a chyfrifoldebau arweinydd, hyfforddwr ac athro	Cymharu a gwrthgyferbynnu swyddogaethau a chyfrifoldebau Arweinydd Chwaraeon, hyfforddwr ac athro	**Tasg 1.1 – Deall y sgiliau a'r ymddygiad mae Arweinydd Chwaraeon eu hangen** Cwblhau taflen waith tasgau
1.2 Disgrifio'r sgiliau allweddol y bydd angen i arweinydd effeithiol eu cael	Disgrifio'r pum sgìl ganlynol sy'n angenrheidiol er mwyn bod yn arweinydd effeithiol, ac egluro pam • Cyfathrebu • Hunan-gred • Gwaith tîm • Hunanreolaeth • Datrys problemau	
1.3 Egluro pam y bydd y sgiliau a nodwyd yn angenrheidiol er mwyn arwain yn effeithiol ac yn llwyddiannus		
1.4 Gwerthuso'r effaith y gall y sgiliau a'r ymddygiadau a nodwyd ei chael ar ddefnyddio sgiliau arwain yn llwyddiannus	Gwerthuso'r effaith y gall y sgiliau a'r ymddygiadau a nodwyd ei chael ar ddefnyddio sgiliau arwain yn llwyddiannus ar gyfer: • Cyfranogwyr • Sesiynau • Eu hunain fel arweinwyr	
Deilliant Dysgu 2 – Deall pwysigrwydd ymddygiadau a sgiliau arwain mewn amrywiol sefyllfaoedd		
2.1 Egluro sut a pham gall sgiliau ac ymddygiadau a nodwyd fod yn berthnasol mewn amgylcheddau eraill	Egluro sut a pham gall o leiaf pum sgìl a phum ymddygiad fod yn berthnasol mewn amgylcheddau eraill	**Tasg 1.2 – Defnyddio sgiliau ac ymddygiad arweinyddiaeth mewn amgylcheddau eraill** Cwblhau taflen waith tasgau
2.2. Egluro'r effaith bositif y gall y sgiliau a'r ymddygiadau ei chael ar gyflogadwyedd a llwyddiant yn yr amgylchedd gwaith	Egluro'r effaith bositif y gallant ei chael ar gyflogadwyedd a llwyddiant yn yr amgylchedd gwaith	

© SLQ 2021

Meini Prawf Asesu	Camau gweithredu gofynnol	Beth sydd angen ei gwblhau
Deilliant Dysgu 3 – Gallu gwerthuso a datblygu sgiliau arwain		
3.1 Disgrifio amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau gwerthuso	Disgrifio o leiaf dri dull a / neu adnodd gwahanol y gellir eu defnyddio i gynorthwyo gyda gwerthuso	**Tasg 1.3 - Gwerthuso a datblygu sgiliau arwain** Cwblhau taflen waith tasgau
3.2 Dewis a defnyddio dulliau ac adnoddau i werthuso eu sgiliau arwain eu hunain a sgiliau arwain dysgwr arall	Gwerthuso o leiaf bump o'ch sgiliau arwain eich hun gan ddefnyddio o leiaf un dull / adnodd gwerthuso	
	Gwerthuso o leiaf bump o sgiliau arwain person arall gan ddefnyddio o leiaf un dull / adnodd gwerthuso	
3.3. Sicrhau gwerthusiad o'ch sgiliau arwain wedi'i gwblhau gan berson cyfrifol	Sicrhau gwerthusiad o'ch sgiliau arwain wedi'i gwblhau gan berson cyfrifol	
3.4 Dadansoddi gwerthusiadau o sgiliau arwain i adnabod meysydd sydd angen eu datblygu ar gyfer eu hunain	Tynnu sylw at o leiaf ddwy o'u sgiliau arwain eu hunain sydd angen eu datblygu, yn seiliedig ar eu gwerthusiadau eu hunain a gwerthusiadau eraill	
3.5 Creu cynllun datblygu personol i wella ei sgiliau arwain ei hun	Creu cynllun datblygu personol sy'n egluro sut i wella'r sgiliau sydd wedi'u nodi fel rhai sydd angen eu datblygu ymhellach	
3.6 Datblygu sgiliau arwain personol	Gwella o leiaf ddwy sgìl arwain yn ystod y cwrs	
Deilliant Dysgu 4 – Gallu adlewyrchu ar ddatblygiad eich sgiliau arwain eich hun yn er byn eich cynllun gweithredu eich hun		
4.1 Gwerthuso effaith eich sgiliau arwain	Gwerthuso effaith eich sgiliau arwain ar: • Cyfranogwyr • Cymuned (e.e. ysgol ac ati) • Eich datblygiad eich hun	**Tasg 6.3 – Adlewyrchu ar eich datblygiad ar draws y cwrs Arweinwyr Chwaraeon** Cwblhau taflen waith tasgau
4.2 Disgrifio anghenion datblygu yn y dyfodol eich sgiliau arwain eich hun		
4.3 Adolygu eich cynllun gweithredu eich hun yn ôl yr angen		

© SLQ 2021

Beth sydd wedi newid?
Uned 2 oedd Uned 3 yn y fanyleb flaenorol. Mae wedi symud i Uned 2 oherwydd ei fod yn caniatáu i'r dysgwr ddilyn datblygiad mwy naturiol o ran yr wybodaeth a'r sgiliau gofynnol ar gyfer arwain digwyddiadau a sesiynau yn nes ymlaen

Uned 2 – Arwain sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol yn ddiogel		
Meini Prawf Asesu	Camau gweithredu gofynnol	Beth sydd angen ei gwblhau
Deilliant Dysgu 1 – Deall sut mae 'dyletswydd o ofal' yn effeithio ar ddiogelu cyfranogwyr		
1.1 Disgrifio beth yw ystyr 'dyletswydd o ofal'	Disgrifio beth yw ystyr 'dyletswydd o ofal'	**Tasg 2.1 – Dyletswydd o ofal a diogelu** Cwblhau taflen waith tasgau
1.2 Egluro beth yw cyfrifoldebau 'dyletswydd o ofal' Arweinydd Chwaraeon	Egluro o leiaf ddau gyfrifoldeb ar gyfer Arweinydd Chwaraeon	
1.3 Disgrifio beth yw ystyr 'diogelu'	Disgrifio beth yw ystyr 'diogelu'	
1.4 Disgrifio sut byddant yn cyflawni'r ddyletswydd o ofal sydd ganddynt tuag at y rhai maent yn eu harwain	Disgrifio o leiaf ddwy ffordd y byddant yn cyflawni eu dyletswydd o ofal tuag at y rhai maent yn eu harwain	
1.5 Disgrifio'r camau y gallant eu cymryd i warchod eu hunain rhag digwyddiadau diogelu	Disgrifio o leiaf ddau gam y gallant eu cymryd i warchod eu hunain rhag digwyddiadau diogelu	
Deilliant Dysgu 2 – Deall sut i sicrhau'r diogelwch gorau posib wrth arwain chwaraeon / gweithgarwch corfforol		
2.1 Cwblhau asesiad risg ar gyfer sesiwn chwaraeon / gweithgarwch corfforol	Cwblhau asesiad risg ar gyfer o leiaf un sesiwn chwaraeon / gweithgarwch corfforol	**Tasg 2.2 – Cwblhau asesiad risg ar gyfer sesiwn chwaraeon / gweithgarwch corfforol** Cwblhau'r templed asesiad risg
Deilliant Dysgu 3 – Gallu sicrhau'r diogelwch gorau posib wrth arwain chwaraeon / gweithgarwch corfforol		
3.1 Arwain sesiynau sy'n lleihau risg ac yn sicrhau'r diogelwch gorau posib	Arwain o leiaf ddau sesiwn i ddangos: • Rhannu negeseuon diogelwch • Gwneud y newidiadau angenrheidiol i weithgareddau, offer, yr amgylchedd ac ymddygiad cyfranogwyr	**Tasg 4.2 – Cynllunio, arwain a gwerthuso cyfres o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynyddol** Ffurflen Arsylwi Ymarferol

© SLQ 2021

Beth sydd wedi newid?

- Uned newydd yw hon sy'n archwilio nodweddion sesiynau cynhwysol
- Mae'r uned hon yn disodli'r rhannau gwybodaeth a oedd yn Unedau 4, 5, 6 a 7 yn flaenorol - mae dwy dasg yn disodli pedair
- Mae'r uned yn caniatáu i chi a'ch dysgwyr archwilio anghenion grwpiau cyfranogwyr posib eraill er enghraifft

<table>
<tr><th colspan="3">Uned 3 - Gwybod sut i gynllunio sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol</th></tr>
<tr><td>Meini Prawf Asesu</td><td>Camau gweithredu gofynnol</td><td>Beth sydd angen ei gwblhau</td></tr>
<tr><td colspan="3">Deilliant Dysgu 1 – Deall chwaraeon / gweithgarwch corfforol cymunedol a’r rhwystrau a’r manteision cysylltiedig</td></tr>
<tr><td>1.1 Disgrifio manteision ffisiolegol, seicolegol a chymdeithasol i'r gymuned o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon / gweithgarwch corfforol</td><td>Disgrifio o leiaf ddwy fantais ffisiolegol, dwy fantais seicolegol a dwy fantais gymdeithasol i'r gymuned o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn y gymuned</td><td rowspan="5">Tasg 3.1 – Effeithiau chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar eich cymuned a’r gymdeithas ehangach
Cwblhau taflen waith tasgau</td></tr>
<tr><td>1.2 Disgrifio manteision ariannol, cymdeithasol ac iechyd i'r gymuned o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon / gweithgarwch corfforol</td><td>Disgrifio o leiaf ddwy fantais ariannol, dwy fantais gymdeithasol a dwy fantais iechyd i'r gymuned o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn y gymuned</td></tr>
<tr><td>1.3 Egluro’r rhwystrau seicolegol a chymdeithasol posib o ran cymryd rhan mewn chwaraeon / gweithgarwch corfforol</td><td>Egluro o leiaf ddau rwystr seicolegol a dau rwystr cymdeithasol o ran cymryd rhan mewn chwaraeon cymunedol</td></tr>
<tr><td>1.4 Disgrifio’r strategaethau a allai gynyddu lefelau cymryd rhan mewn chwaraeon / gweithgarwch corfforol yn y gymuned</td><td rowspan="2">Dewis o leiasf dri grŵp o gyfranogwyr* o blith y canlynol:
Plant
Pobl hŷn
Pobl anabl
Merched a genethod
Grwpiau lleiafrif ethnig
Pobl fyddar
Unrhyw grŵp arall sy’n bwysig i chi a / neu eich dysgwyr
Ar gyfer pob un o’r grwpiau a ddewisir:
Disgrifio o leiaf ddwy strategaeth genedlaethol a allai gynyddu'r lefelau cymryd rhan yn y gymuned
Dadansoddi’r amrywiaeth o ddarpariaeth chwaraeon / gweithgarwch corfforol ar gyfer pobl yn eich cymuned</td></tr>
<tr><td>1.5 Dadansoddwch yr ystod o gyfleoedd chwaraeon / gweithgaredd corfforol yn y gymuned</td></tr>
</table>

© SLQ 2021

Meini Prawf Asesu	Camau gweithredu gofynnol	Beth sydd angen ei gwblhau
Deilliant Dysgu 2 – Deall yr effeithiau y gall chwaraeon / gweithgarwch corfforol eu cael ar gyfranogwyr		
2.1 Esbonio'r effeithiau positif y gall cymryd rhan mewn chwaraeon / gweithgarwch corfforol eu cael ar unigolyn	Esbonio'r effaith bositif y gall chwaraeon / gweithgarwch corfforol ei chael ar unigolyn	**Tasg 3.1 – Effeithiau chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar eich cymuned a'r gymdeithas ehangach** Cwblhau taflen waith tasgau
2.2 Esbonio'r effeithiau positif y gall cymryd rhan mewn chwaraeon / gweithgarwch corfforol eu cael ar grŵp penodol	Esbonio'r effaith bositif y gall chwaraeon / gweithgarwch corfforol ei chael ar grwpiau penodol o gyfranogwyr *Defnyddiwch y tri grŵp sydd wedi'u dewis uchod	
2.3 Dadansoddi'r cyswllt rhwng profiadau o chwaraeon / gweithgarwch corfforol mewn plentyndod ac arferion cymryd rhan gydol oes	Dadansoddi'r cyswllt rhwng profiadau o chwaraeon / gweithgarwch corfforol mewn plentyndod ac arferion cymryd rhan gydol oes. Rhowch o leiaf ddwy esiampl	
2.4 Dadansoddi'r cyswllt rhwng darparu chwaraeon / gweithgarwch corfforol yng nghymuned person ac arferion cymryd rhan gydol oes	Dadansoddi'r cyswllt rhwng darparu chwaraeon / gweithgarwch corfforol yng nghymuned person ac arferion cymryd rhan gydol oes Rhowch o leiaf ddwy esiampl	
Deilliant Dysgu 3 – Deall sut i wneud sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol yn gynhwysol i anghenion y cyfranogwyr		
3.1 Adnabod anghenion cyfranogwyr sy'n cymryd rhan mewn sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol	Adnabod anghenion penodol cyfranogwyr ac egluro sut i wneud sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol yn gynhwysol i grwpiau penodol o gyfranogwyr	**Tasg 3.2 – Gwneud sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol yn gynhwysol** Cwblhau taflen waith tasgau
3.2 Egluro sut i arwain sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol i ddiwallu anghenion y cyfranogwyr		

© SLQ 2021

Beth sydd wedi newid?

- Bellach Uned 4 yw'r canolbwynt i'r Tiwtor / Asesydd arsylwi ac asesu'r dysgwr yn arwain 2 sesiwn 30 munud (3 sesiwn 20 munud yn flaenorol)
- Bydd y dysgwr yn cynllunio tri sesiwn cysylltiedig ac yn arwain dau o'r rhain gyda'r Tiwtor / Asesydd yn arsylwi

Uned 4 - Cynllunio, arwain a gwerthuso cyfres gynyddol o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol		
Meini Prawf Asesu	Camau gweithredu gofynnol	Beth sydd angen ei gwblhau
Deilliant Dysgu 1 – Gwybod sut i gynllunio cyfres gynyddol o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol		
1.1 Disgrifio nodweddion cynnydd mewn cyfres o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol	Disgrifio o leiaf dair nodwedd cynnydd mewn cyfres o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol	**Tasg 4.1 – Beth sy'n gwneud cyfres o sesiynau** Cwblhau taflen waith tasgau
1.2 Egluro sut i bennu amcanion ar gyfer cyfres gynyddol o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol	Rhoi dwy esiampl o sut i bennu amcanion ar gyfer cyfres gynyddol o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol	
Deilliant Dysgu 2 – Gallu cynllunio cyfres o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol		
2.1 Cynllunio cyfres gynyddol o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol	Cynllunio cyfres o dri sesiwn chwaraeon / gweithgarwch corfforol cysylltiedig sy'n dangos cynnydd o un sesiwn i'r nesaf	**Tasg 4.2 – Cynllunio, arwain a gwerthuso cyfres o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynyddol** Cwblhau tair cyfres gysylltiedig o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol
2.2 Pennu amcanion ar gyfer cyfres o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol	Pennu amcanion ar gyfer cyfres o dri sesiwn chwaraeon / gweithgarwch corfforol sy'n dangos cynnydd o un sesiwn i'r nesaf	
2.3 Cynllunio sut i addasu'r gwaith o arwain sesiwn er mwyn ei wneud yn gynhwysol i'r cyfranogw(y)r	Amlinellu o leiaf ddwy ffordd o addasu eich gwaith o arwain sesiwn er mwyn ei wneud yn gynhwysol i'r cyfranogw(y)r	
2.4 Addasu'r sesiynau i'r amgylchedd	Cynllunio sut i wneud o leiaf ddau newid y gellir eu defnyddio i ddiwallu anghenion amgylcheddol	

© SLQ 2021

Meini Prawf Asesu	Camau gweithredu gofynnol	Beth sydd angen ei gwblhau
Deilliant Dysgu 3 – Gallu arwain cyfres o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol		
3.1 Arwain cyfres gynyddol o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol	Arwain isafswm o ddau sesiwn chwaraeon / gweithgarwch corfforol cysylltiedig sy'n dangos cynnydd o un sesiwn i'r nesaf	**Tasg 4.2 – Cynllunio, arwain a gwerthuso cyfres o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynyddol** Ffurflen arsylwi ymarferol
3.2 Defnyddio dulliau cymell effeithiol wrth arwain sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol	Defnyddio pedwar dull cymell yn effeithiol ar ddau achlysur	
3.3 Defnyddio dulliau cyfathrebu effeithiol wrth arwain sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol	Defnyddio o leiaf bum gwahanol ddull cyfathrebu geiriol a phum gwahanol ddull cyfathrebu dieiriau yn effeithiol ar ddau achlysur	
3.4 Defnyddio strategaethau effeithiol i reoli ymddygiad cyfranogw(y)r	Defnyddio dau ddull rheoli ymddygiad yn effeithiol ar ddau achlysur	
3.5 Addasu arwain sesiwn i'w wneud yn gynhwysol i'r cyfranogw(y)r	Addasu arwain sesiwn i'w wneud yn gynhwysol i'r cyfranogw(y)r ar ddau achlysur o leiaf	
3.6 Addasu sesiwn yn effeithiol yn unol ag anghenion amgylcheddol	Addasu sesiwn (sesiynau) i ddiwallu anghenion amgylcheddol ar un achlysur o leiaf	
3.7 Cynnal sesiwn chwaraeon / gweithgarwch corfforol yn effeithiol	Cynnal sesiwn chwaraeon / gweithgarwch corfforol yn effeithiol	
Deilliant Dysgu 3 – Gallu gwerthuso sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol		
4.1 Gwerthuso cyfres gysylltiedig o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol	Gwerthuso o leiaf ddau sesiwn chwaraeon / gweithgarwch corfforol cymunedol cysylltiedig sydd wedi cael eu harwain	**Tasg 4.2 – Cynllunio, arwain a gwerthuso cyfres o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynyddol** Cwblhau adrannau gwerthuso ar gyfer dau sesiwn

© SLQ 2021

Beth sydd wedi newid?

- Mae mwy o ffocws ar sut gellir gwneud digwyddiadau'n gynhwysol ar gyfer y cyfranogwyr
- Hefyd mae gofyn i'r dysgwyr gwblhau o leiaf 2 awr o arddangosfa yn arwain digwyddiad

Unit 5 – Plan, lead and evaluate inclusive sports/physical activity events		
Meini Prawf Asesu	Camau gweithredu gofynnol	Beth sydd angen ei gwblhau
Deilliant Dysgu 1 – Gwybod am y gwahanol fathau o ddigwyddiadau chwaraeon / gweithgarwch corfforol		
1.1 Gwerthuso gwahanol fathau o ddigwyddiadau chwaraeon / gweithgarwch corfforol	Gwerthuso o leiaf bump o wahanol fathau o ddigwyddiadau chwaraeon / gweithgarwch corfforol	**Tasg 5.1 – Mathau o ddigwyddiadau chwaraeon / gweithgarwch corfforol** Cwblhau taflen waith tasgau
1.2 Egluro sut i wneud digwyddiadau chwaraeon / gweithgarwch corfforol yn gynhwysol	Ar gyfer pob un o'r pum digwyddiad a werthusir, egluro sut mae'r digwyddiad yn gynhwysol neu sut gellid ei wneud yn fwy cynhwysol	
Deilliant Dysgu 2 – Gallu cynllunio digwyddiad chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol		
2.1 Cynllunio digwyddiad chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol	Cynllunio o leiaf un digwyddiad chwaraeon / gweithgarwch corfforol	**Tasg 5.2 - Cynllunio, arwain a gwerthuso digwyddiad chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol** Cwblhau cynllun digwyddiadau
Deilliant Dysgu 3 – Gallu cyflwyno digwyddiad chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol		
3.1 Arwain digwyddiad chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol	Arwain o leiaf un digwyddiad chwaraeon / gweithgarwch corfforol sy'n dangos bod yn gynhwysol i amrywiaeth o grwpiau o gyfranogwyr	**Tasg 5.2 - Cynllunio, arwain a gwerthuso digwyddiad chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol** Cwblhau taflen waith tasgau
	Cwblhau isafswm o 2 awr o arwain digwyddiad	**Tasg 5.3 – Log Arweinyddiaeth Digwyddiad**
Deilliant Dysgu 4 – Gallu gwerthuso digwyddiad chwaraeon / gweithgarwch corfforol		
4.1 Dewis a defnyddio dulliau ac adnoddau priodol o werthuso llwyddiant digwyddiad chwaraeon / gweithgarwch corfforol	Gwerthuso isafswm o un digwyddiad chwaraeon / gweithgarwch corfforol sydd wedi cael ei arwain gan y dysgwr	**Tasg 5.2 - Cynllunio, arwain a gwerthuso digwyddiad chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol** Cwblhau gwerthusiad o'r cynllun
4.2 Cofnodi gwerthusiadau mewn fformat priodol		

© SLQ 2021

Beth sydd wedi newid?

- Mae hon yn uned newydd - mae'n canolbwyntio ar y dysgwr yn cynllunio, yn arwain ac yn gwerthuso sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol i amrywiaeth o grwpiau o gyfranogwyr yn eu cymuned (yr amrywiaeth yw o leiaf dri grŵp gwahanol o gyfranogwyr)
- Mae'n disodli rhannau o Unedau 4-7 ym manyleb 2019/20
- Mae angen chwe chynllun sesiwn (fel arfer cynllun ar gyfer 1 awr o chwaraeon / gweithgarwch corfforol)

Uned 6 - Arwain sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol i amrywiaeth o grwpiau o gyfranogwyr		
Nodyn: Mae angen i'r dysgwr gael ei asesu ar gyfer pob un o'r meini prawf asesu yn Unedau 1, 2, 3 a 4 a phasio pob un ohonynt hefyd, cyn arwain unrhyw un o'r sesiynau arwain 12 awr sy'n angenrheidiol ar gyfer yr uned hon		
Meini Prawf Asesu	Camau gweithredu gofynnol	Beth sydd angen ei gwblhau
Deilliant Dysgu 1 – Gallu cynllunio o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol ar gyfer grwpiau o gyfranogwyr		
1.1 Cynllunio sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol ar gyfer amrywiaeth o grwpiau o gyfranogwyr 1.2 Cynllunio sut i addasu arwain y sesiwn i'w wneud yn gynhywysol i'r grŵp sy'n cymryd rhan Grwpiau posib o gyfranogwyr • Plant • Pobl hŷn • Pobl anabl • Merched a genethod • Grwpiau lleiafrif ethnig • Pobl fyddar	Cynllunio o leiaf chwe chynllun sesiwn ar gyfer sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol. Dylai'r chwe chynllun sesiwn fod ar gyfer sesiynau sydd i'w harwain gan y dysgwr fel rhan o'i arddangosfa arwain o 12 awr. Rhaid i'r chwe chynllun sesiwn: • Cynnwys enghreifftiau o sut mae sesiwn penodol wedi cael ei wneud yn gynhwysol ar gyfer y grŵp (grwpiau)o gyfranogwyr. • Rhoi enghreifftiau o sut mae'r sesiynau wedi cael eu gwneud yn gynhwysol ar gyfer o leiaf dri o'r grwpiau o gyfranogwyr a restrir, boed hynny ar draws pob un o'r chwe sesiwn neu drwy unrhyw gyfuniad o sesiynau annibynnol yn y chwe sesiwn hynny. Er enghraifft, gallai pob un o'r chwe sesiwn fod yn gynhwysol i blant, genethod a phobl anabl, neu fe allech chi gael dau sesiwn i blant, dau i genethod a dau i bobl anabl.	**Tasg 6.1 - Cynllunio, arwain a gwerthuso sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol ar gyfer amrywiaeth o grwpiau cyfranogi** Cwblhau chwe chynllun sesiwn Nodyn: gall y cynlluniau sesiwn fod ar gyfer sesiwn o unrhyw hyd, ond yn nodweddiadol, 1 awr o hyd

© SLQ 2021

Meini Prawf Asesu	Camau gweithredu gofynnol	Beth sydd angen ei gwblhau
Deilliant Dysgu 2 – Gallu arwain sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol ar gyfer grwpiau o gyfranogwyr		
2.1 Dangos arwain sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol i ystod o grwpiau cyfranogwyr	Arwain o leiaf 12 awr o sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol. Rhaid i'r 12 awr gynnwys y chwe chynllun sesiwn a gynlluniwyd gan y dysgwr.	**Tasg 6.2 - Log Arweinyddiaeth** Cwblhau'r Log Arweinyddiaeth a chael o leiaf ddau Datganiad Tyst gan berson cyfrifol, cyfranogwr neu arsylwr
Deilliant Dysgu 3 – Gallu gwerthuso sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol sydd wedi cael eu harwain ar gyfer grwpiau o gyfranogwyr		
3.1 Gwerthuso sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol sydd wedi cael eu harwain i amrywiaeth o grwpiau o gyfranogwyr	Gwerthuso'r chwe sesiwn sydd wedi'u cynllunio a'u harwain i gyfranogwyr	**Tasg 6.1 - Cynllunio, arwain a gwerthuso sesiynau chwaraeon / gweithgarwch corfforol cynhwysol ar gyfer amrywiaeth o grwpiau o gyfranogwyr** Cwblhau'r gwerthusiad cryno ar gyfer y sesiynau sydd wedi cael eu harwain

© SLQ 2021